

Hyrwyddwr/wraig Cyflogaeth Pobl Anabl

Disgrifiad o'r Swydd



Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweithio gyda busnesau i gefnogi rhagor o bobl anabl i mewn i waith.



Dydy llawer o gyflogwyr ddim yn cefnogi pobl anabl ac mae hyn yn ei gwneud hi yn llawer mwy anodd iddyn nhw weithio.



Fe fydd y bobl sydd yn gwneud y swyddi newydd yma yn siarad i fyny dros hawliau pobl anabl yn y gwaith.



Fe fydd cefnogaeth hefyd gan **Busnes Cymru**.



Fe fydd y bobl sydd yn gwneud y swyddi newydd yma yn helpu busnesau i ddeall sut i recriwtio a chefnogi pobl anabl.

Beth fyddwch chi'n ei wneud yn y swydd



Siarad gyda chyflogwyr am gyflogi pobl anabl a phobl gyda chyflyrau iechyd.



Deall y **model cymdeithasol o anabledd**.



Ei gwneud yn fwy hawdd i bobl anabl weithio.



Cefnogi cyflogwyr i helpu pobl i siarad am eu namau pan maen nhw'n recriwtio.



Cefnogi cyflogwyr i gynnwys pawb pan maen nhw'n recriwtio.



Cefnogi cyflogwyr i gael y cyngor a'r gefnogaeth iawn gan gyrff eraill am namau a'r newidiadau mae angen iddyn nhw eu gwneud.



Gweithio gyda chyrrff sydd yn cynnig cefnogaeth ar faterion anabledd.



Rhannu gwybodaeth gyda'r rhwydwaith o'r enw **Dysgwyr yn y Gwaith** am gyflogwyr gyda phrofiad o recriwtio pobl anabl.



Siarad gyda phobl berthnasol yn Llywodraeth Cymru am y gwaith.



Fe fyddai siarad Cymrage yn help, ond dydy hynny ddim yn hanfodol ar gyfer y swydd.

Beth fydd y swydd yn ei roi i chi



Y cyfle i weithio gydag uwch arweinwyr mewn busnes yng Nghymru.



Cael sgiliau mewn arwain a chyfathrebu.



Y cyfle i helpu busnesau i newid .

Y sgiliau mae'n rhaid i'r person eu cael:



Profiad o'r probemau mae pobl anabl yn eu wynebu mewn cyflogaeth.



Gallu datblygu perthnasoedd da gyda busnesau a chyrrff.



Gallu gwneud gwahaniaeth.